BRACE, DAVID ONLLWYN (1848 - 1891), gweinidog Annibynnol

Enw: David Onllwyn Brace
Dyddiad geni: 1848
Dyddiad marw: 1891
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn Onllwyn, ger Castell Nedd, ar yr 11 Tachwedd 1848. Prin oedd ei fanteision bore oes. Dechreuodd bregethu yn Onllwyn. Bu'n fyfyriwr yn athrofa ogleddol yr Annibynwyr, Bala, 1866-9. Urddwyd ef yn Rhosymedre, sir Ddinbych, 24 Hydref 1870. Symudodd i Bantycrwys, Cwmtawe, yn 1872, a bugeilio'r praidd yn Felindre, a Bethel, Llantwrch, am dymor. Symudodd i Fethel, Aberdâr, 1878.

Ymroes yn ifanc i'w ddiwyllio'i hun. Rhoddes sylw mawr i arddull goeth yn ei bregethau. Daeth yn amlwg fel bardd eisteddfodol llwyddiannus. Rhagorodd yn arbennig yn ei ddawn i ganu marwnadau, nes ennill yr enw 'prif farwnadwr ei gyfnod.' Cyhoeddodd *Cerddi Onllwyn*, 1888, a rhieingerdd, *Rachel*, yn 1890. Bu farw 28 Mehefin 1891.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iv, 32

Adroddiadau Coleg y Bala, 1866-9

Isaac Foulkes, *Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Gweithiau

Watkin Hezekiah Williams, David Onllwyn Brace, Pennar Griffiths, *Byr-gofiant i'r diweddar Barch. T. Penry Evans, Pontardulais* (1890)

E. Pan Jones, David Onllwyn Brace, *Cofiant y Tri Brawd o Llanbrynmair a Conwy* (Bala 1892)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732876

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu